Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Cymorth Ardrethi (Busnes) Annomestig ar gyfer Ynni Dŵr

## Ffurflen gais a chanllawiau

ISBN digidol 978-1-80364-604-6 © Hawlfraint y Goron 2022 WG45711

## Cyflwyniad

Mae’r ffurflen gais a’r canllawiau hyn ar gyfer perchnogion prosiectau ynni dŵr sy’n dymuno gwneud cais am gymorth tuag at eu rhwymedigaethau ardrethi (busnes) annomestig yn 2023-24.

Nod y cynllun grant yw rhoi cymorth tuag at eu rhwymedigaethau ardrethi annomestig i brosiectau ynni dŵr cymwys. Ni fyddai gwneud cais i’r cynllun grant hwn yn dileu’r atebolrwydd i dalu rhwymedigaeth ardrethi annomestig i’r Awdurdod Lleol.

## Amserlenni

Dyma alwad agored ar gyfer ceisiadau, ar gael rhwng 1 Ebrill 2023 a 30 Medi 2023.

## Yr arian sydd ar gael

Bydd y cynllun grant yn cefnogi prosiectau ynni dŵr sy’n berchen i’r gymuned sydd â gwerth ardrethol o hyd at £50,000. Mae cyllid yn amodol ar derfynau Cymhorthdal y DU (sy’n disodli Cymorth Gwladwriaethol yr UE).

Bydd y cynllun yn rhoi rhyddhad o 100% i brosiectau sy’n eiddo i’r gymuned.

Gweler atodiad B am enghraifft o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo.

## Meini prawf

Derbynnir ceisiadau gan unrhyw brosiect ynni dŵr yng Nghymru sy’n berchen i’r gymuned sydd â gwerth ardrethol llai na £50,000. Noder y canlynol:

- Bydd prosiectau sy’n cael eu comisiynu ar ôl 01 Ebrill 2023 yn gymwys, ar yr amod eu bod yn comisiynu ac yn cofrestru ar gyfer ardrethi annomestig cyn diwedd y cyfnod gwneud cais (30 Medi 2023). Bydd y grant yn cael ei ddyfarnu pro rata.

Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer elfen rhyddhad 100% o’r cymorth, bydd angen i brosiectau fodloni ein diffiniad o brosiect sy’n berchen i’r gymuned:

- datblygiad ynni adnewyddadwy neu storio adnewyddadwy sydd wedi’i leoli yng Nghymru, ym mherchnogaeth lwyr menter gymdeithasol sydd wedi ymrwymo ei hasedau a’i helw i gyflawni amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol.

Bydd angen darparu dogfennau ategol i gynnig tystiolaeth i fodloni’r diffiniad hwn.

## Sut i wneud cais

Llenwch y ffurflen gais yn ddigidol a’i dychwelyd, gyda’r dogfennau ategol, at: energypolicymailbox.llyw.cymru.

## Ffurflen Gais

1. Enw'r Prosiect

2. Lleoliad y prosiect

Cyfeiriad:

Cod post:

Cyfeirnod Grid*:

* Defnyddiwch www.gridreferencefinder.com/ i ddod o hyd i'r cyfeirnod grid.

3. Enw Cyswllt

Enw:

Sefydliad:

Swydd:

4. Cyfeiriad yr Ohebiaeth (os yn wahanol i leoliad y prosiect)

Cyfeiriad:

Cod post:

5. Manylion cyswllt

Ffôn:

E-bost:

6. Statws Busnes

Ticiwch y blwch priodol:

Elusen ☐

Cwmni Dielw ☐

Arall ☐

Os arall, manylwch:

Rhif y Cwmni a / neu Rif Elusen (os yw'n briodol):

7. Manylion Ardrethi Annomestig

Mae manylion y rhwymedigaeth ardrethi annomestig i'w gweld ar y datganiad bilio sy'n cael ei anfon gan yr Awdurdod Lleol.

Rhowch gopi o'ch datganiad bilio 2023-24 gyda'ch cais.

Yn y bocs isod, nodwch y rhwymedigaethau ardrethi annomestig net. Y rhwymedigaeth net yw'r swm sy'n cael ei dalu i'r Awdurdod Lleol ac sy'n ystyried y didyniadau ar gyfer Rhyddhad Ardrethi Busnesau Bach, Rhyddhad Ardrethi Trosiannol, Rhyddhad Gorfodol a Rhyddhad Dewisol.

A. Rhwymedigaeth ardrethi annomestig net ar gyfer blwyddyn ariannol 2023-24: £ ☐

Gweler atodiad B am enghreifftiau manwl o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo.

8. Perchnogaeth gymunedol

A yw'r prosiect ynni dŵr yn bodloni ein diffiniad o berchnogaeth gymunedol?

- datblygiad ynni adnewyddadwy neu storio adnewyddadwy yng Nghymru, ym mherchnogaeth lwyr menter gymdeithasol y mae ei hasedau a'i helw wedi ymrwymo i gyflawni amcanion cymdeithasol a/neu amgylcheddol.

Ydy ☐

Nac ydy ☐

Ydych chi wedi gwneud cais llwyddiannus o'r blaen i'r cynllun hwn?

Ydw ☐

Nac ydw ☐

Os na, dylid darparu'r dystiolaeth ganlynol:

- Copi o ddogfennau llywodraethu eich grŵp. Er enghraifft, ei gyfansoddiad neu ei Erthyglau Cymdeithasu.
- Copi o gofnodion eich Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol diwethaf.
- Cofnodion cyfrif y sefydliadau ar gyfer y flwyddyn ddiwethaf a chyfriflen banc gyfredol.

9. Asiantaeth y Swyddfa Brisio

A oes gennych apêl sydd heb ei phenderfynu eto gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio?

Oes ☐

Nac oes ☐

Sylwch, os oes gennych apêl sydd heb ei phenderfynu eto gydag Asiantaeth y Swyddfa Brisio, ni fydd eich cais yn cael ei brosesu nes bod yr apêl wedi'i phenderfynu.

10. Cyfundrefn Cymhorthdal y DU

Mae Erthygl 3.2 o'r TCA yn nodi nad yw'r rheolau cymhorthdal y mae'n eu hamlinellu yn gymwys "i gymorthdaliadau lle mae'r cyfanswm a roddir i un cyfranogwr economaidd yn is na 325,000 o Hawliau Arbennig Tynnu Arian [SDR, tua £344mil, trawsnewidydd yma] dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ariannol." Rwyf wedi holi cyd-Weinidogion yn Llywodraeth y DU ynghylch y darn hwn a'u safbwynt hwy yw bod hyn yn disodli de minimis yng nghyd-destun y DU. Rydym yn pwyso arnynt i gyhoeddi canllawiau ysgrifenedig yn nodi yn unol â hynny ac yn y cyfamser rydym yn awgrymu sicrhau cysondeb â thelerau, amodau a phrosesau hen reolau de minimis yr UE er mwyn lleihau'r risg o gwyno. Mae BEIS wedi datgan bod angen i gymorth SDR a chymorth de minimis gael eu cronni gyda'i gilydd, felly bydd angen i chi ystyried de minimis presennol wrth bennu trothwyon SDR ac i'r gwrthwyneb.

Er mwyn osgoi amharu gormod ar gystadleuaeth, mae'r Comisiwn Ewropeaidd yn gosod terfynau ar y cymorth y caniateir ei roi i sefydliadau sy'n gweithredu mewn marchnad gystadleuol. Mae hyn yn disodli rheolau Cymorth Gwladwriaethol yr UE a chymorth de minimus yn y DU, yn dilyn Brexit. Eir ati yn yr adran hon i nodi'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn cydymffurfio â'r terfynau hynny. Dylech nodi'r gofynion a'r rhwymedigaethau hynny yn ofalus.

O dan Reoliad yr UE 1407/2013 (Rheoliad Cymorth De Minimis) fel a gyhoeddwyd yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd 24 Rhagfyr 2013, y cymorth a ddarperir yw cymorth de minimis. "i gymorthdaliadau lle mae'r cyfanswm a roddir i un cyfranogwr economaidd yn is na 325,000 o Hawliau Arbennig Tynnu Arian [SDR, tua £344mil, trawsnewidydd yma] dros unrhyw gyfnod o dair blynedd ariannol. Mae uchafswm o £344,000 ar bob cymorth SDR sy'n cael ei ddarparu i unrhyw sefydliad unigol dros gyfnod o dair blynedd ariannol (hy y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flaenorol).

Bydd unrhyw symiau bach o gymorth ariannol (SAFA) a ddarparwyd ichi o dan y Cymorth Ardrethi (busnes) Annomestig ar gyfer cynllun Ynni Dŵr yn berthnasol os ydych yn dymuno gwneud cais, neu eich bod wedi gwneud cais, am unrhyw gymorth de minimis arall neu SAFA. Bydd angen i chi ddatgan y swm hwn i unrhyw gorff dyfarnu cymorth arall sy'n gofyn am wybodaeth ynghylch faint o gymorth De Minimis yr ydych wedi'i dderbyn.

Rhowch wybod i ni am unrhyw gymorth de minimis arall neu SAFA a gafwyd yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd flaenorol, gan y bydd angen i ni gadarnhau nad yw'n cymorth ni, ar ben y cymorth a gafwyd eisoes, yn mynd dros y trothwy o £344,000 dros y 3 blynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r Cymorth De Minimis a SAFA yn cynnwys cyllid grant, a hefyd unrhyw gymorth fel gwasanaethau ymgynghori neu gyngor marchnata etc sy'n rhad ac am ddim neu â chymhorthdal. Os ydych yn ansicr a yw cymorth blaenorol yn cyfrif fel cymorth de minimis, mae'n well ei nodi.

Darperir Cymorth Ardrethi (Busnes) Annomestig ar gyfer Ynni Dŵr fel cymorth SAFA. Os ydych yn credu na fyddwch yn gymwys ar gyfer cymorth SAFA mae'n bosibl y bydd opsiynau eraill ar gael ichi dderbyn cymorth, cysylltwch â ni i drafod eich opsiynau.

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi derbyn y cymorth de minimis a/neu SAFA canlynol yn ystod y 3 blwyddyn ariannol ddiwethaf (sef y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flwyddyn ariannol flaenorol):

| **Y corff sy'n darparu'r cymorth** | **Gwerth y cymorth £** | **Dyddiad y cyllid** |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

11. Datganiad

- Rwyf yn datgan bod y manylion a roddwyd yn y cais hwn yn wir hyd eithaf fy ngwybodaeth a'm cred.
- Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y nodiadau canllaw.
- Rwyf wedi fy awdurdodi i lofnodi / cyflwyno y cais hwn.

| | |
|---|---|
| Enw: | |
| Sefydliad: | |
| Swydd: | |
| Dyddiad: | |

LLOFNOD ELECTRONIG:
Drwy anfon y ffurflen hon mewn e-bost at Lywodraeth Cymru (energypolicymailbox@gov.wales) rydych yn gwneud y datganiad uchod.

Rhestr wirio

Ticiwch y blychau i gadarnhau eich bod wedi:

- Ateb pob cwestiwn ☐
- Cwblhau adran 10 ar Gyfundrefn Cymhorthdal y DU ☐
- Llofnodi'r datganiad ☐
- Wedi darparu copi o ddatganiad bilio 2023-24 ☐
- Darparu tystiolaeth o berchnogaeth gymunedol (nid oes angen hyn os ydych wedi cyflwyno cais i'r cynllun hwn o'r blaen) ☐

## Atodiad A: Hysbysiad Preifatrwydd – Grantiau Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu ystod eang o gynlluniau grant i helpu i gyflawni ein polisïau ac i greu Cymru fwy teg a llewyrchus.

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych mewn perthynas â'ch cais am grant neu'ch cais am arian grant. Bydd yr wybodaeth yn cael ei phrosesu fel rhan o'n tasg gyhoeddus (h.y. arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru) a bydd yn ein helpu i asesu a ydych yn gymwys i gael cyllid ai peidio.

Cyn inni roi arian ichi, rydyn ni'n cynnal archwiliadau i atal twyll a gwyngalchu arian, ac i gadarnhau pwy ydych chi. Er mwyn inni allu cynnal yr archwiliadau hyn, mae gofyn inni brosesu data personol amdanoch a'u rhannu ag asiantaethau atal twyll trydydd parti.

Os byddwn ni, neu asiantaeth atal twyll, yn credu bod risg y gallech dwyllo neu wyngalchu arian, mae'n bosibl y byddwn yn gwrthod rhoi'r arian rydych wedi gofyn amdano, neu gallem roi'r gorau i roi arian grant a ddyfarnwyd ichi eisoes.

Bydd yr asiantaethau atal twyll yn cadw cofnod o unrhyw risg o dwyll neu wyngalchu arian, a gallai eraill wrthod darparu gwasanaethau, cyllid neu waith i chi yn sgil hynny.

Byddwn yn cadw'r wybodaeth bersonol sydd yn y ffeiliau yn unol â'n polisi cadw. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd eich data personol yn cael eu cadw am gyfnod o 7 mlynedd ar ôl y dyddiad pan fyddwch chi, sef y sawl a fydd wedi cael grant, yn cael eich rhyddhau rhag yr holl amodau a fydd yn gysylltiedig â'r grant a ddyfernir a phan fydd yr holl daliadau wedi'u gwneud. Fodd bynnag, os dyfernir y cyllid o dan yr Esemptiad Bloc Cyffredinol neu o dan y rheolau De Minimis, bydd eich data personol yn cael eu cadw am gyfnod o 10 mlynedd o'r dyddiad y daw unrhyw ddyfarniad cymorth i ben. Os na fydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn cadw eich manylion am gyfnod o flwyddyn ar ôl y dyddiad y darparwyd yr wybodaeth gennych.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawliau canlynol:

- cael gafael ar y data personol sydd gan Lywodraeth Cymru arnoch;
- ei gwneud yn ofynnol i ni gywiro gwallau yn y data hwnnw;
- i (mewn rhai amgylchiadau) wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu;
- i'ch data gael ei 'ddileu' (mewn rhai amgylchiadau;
- i gofrestru cwyn yn Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheolydd annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru'n ei chadw a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os hoffech arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, defnyddiwch y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data, Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NQ

E-bost: dataprotectionofficer@gov.wales

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan: www.ico.gov.uk

## Atodiad B: Enghreifftiau o sut y caiff y cyllid ei gyfrifo

| Enghraifft 1: Prosiect o dan Berchnogaeth y Gymuned | | |
|---|---|---|
| 2021-22 | | |
| Gwerth Ardrethol | £4,450 | |
| Rhwymedigaeth Ardrethi | £2,381 | (£4,450 * 0.535) |
| Rhyddhad yn ôl disgresiwn | £1,665 | |
| Rhwymedigaeth Net | £716 | (£2,381 – £1,665) |
| Grant | £716 | (100%) |